Adroddiad Monitro Blynyddol y Cynllun Iaith Gymraeg
2021-2022
Cyngor Dinas Casnewydd

NEWPORT
CITY COUNCIL
CYNGOR DINAS
CASNEWYDD

Cynnwys

Rhagair gan yr Aelod Cabinet dros Drawsnewid Sefydliadol
Rhagair gan y Prif Weithredwr

1. **Cyd-destun Deddfwriaethol**
2. **Cyflwyniad**
3. **Datblygiadau allweddol**
4. **Monitro**
5. **Cwynion**
6. **Hyfforddiant**
7. **Trosolwg ar y gwaith yn unol â'r Safonau**
8. **Edrych ymlaen**

Rhagair gan yr Aelod Cabinet dros Drawsnewid Sefydliadol

Fel yr Aelod Cabinet newydd sy'n arwain ar y Gymraeg, rwy'n croesawu'r Adroddiad Monitro'r Gymraeg Blynyddol hwn sy'n adlewyrchu ein cyflawniadau, ein perfformiad a'n cydymffurfiaeth â'n dyletswyddau statudol.

Unwaith eto, mae eleni wedi bod yn heriol mewn sawl ffordd, yn enwedig gyda chyfyngiadau parhaus ar rai gweithgareddau oherwydd y pandemig parhaus; ond rwy'n falch o weld ein bod wedi parhau i wneud cynnydd cadarnhaol yn erbyn ein hymrwymiadau i'r Gymraeg yma yng Nghasnewydd.

Ymrwymiad a gadarnhawyd gan agoriad pedwaredd ysgol Gymraeg yng Nghasnewydd, sy'n cynnig cyfleoedd cyffrous i hyrwyddo manteision dysgu Cymraeg ar draws ein holl gymunedau yng Nghasnewydd. Dyhead a amlygwyd yn ein Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg, gyda tharged uchelgeisiol i gynyddu nifer y plant mewn addysg Gymraeg. Cynllun a ddatblygwyd drwy ymgysylltu â rhanddeiliaid, a gymeradwywyd gan y Cyngor ac sydd ar hyn o bryd gyda Llywodraeth Cymru i'w gymeradwyo.

Mae ein Strategaeth Iaith Gymraeg Hyrwyddo 5 Mlynedd newydd, a gymeradwywyd gan y Cabinet ac a dderbyniwyd ac y cytunwyd arni'n gadarnhaol gan y Cyngor, yn tynnu sylw at yr ymrwymiad hirdymor i sicrhau bod pobl Casnewydd yn gallu, "gweld, clywed, dysgu, defnyddio a charu" y Gymraeg. Mae'n nodi sut ein bod yn anelu at weithio ar draws cymunedau yng Nghasnewydd i gynyddu hygyrchedd ieithoedd i bawb, gan sicrhau ei fod yn gynhwysol

Mae ein Haelod Etholedig a Hyrwyddwr y Gymraeg yn parhau i gefnogi gwaith ein swyddogion i hybu'r Gymraeg a chodi proffil y Gymraeg o fewn y cyngor ac ar draws ein cymunedau. Chwaraeodd Hyrwyddwr y llynedd y Cynghorydd Jason Hughes ran allweddol i'w chwarae wrth helpu i nodi prosiectau a elwodd o gyllid drwy ein cynllun Cymraeg yn y Grant Cymunedol.

Er gwaethaf y pandemig parhaus, rydym wedi cynyddu ein gwaith gyda'n rhanddeiliaid lleol, ysgolion a'r gymuned. Er ein bod unwaith eto wedi gorfod gohirio nifer o brosiectau eleni, edrychaf ymlaen at gynnwys y rhain mewn adroddiadau yn y dyfodol.

Rhagair gan y Prif Weithredwr

Am yr ail flwyddyn yn olynol, roedd y Cyngor, fel gwasanaethau eraill yn y sector cyhoeddus ledled Cymru, yn wynebu heriau parhaus oherwydd y sefyllfa a oedd yn parhau i fynd rhagddo gyda'r pandemig. Roedd yn ofynnol i ni addasu, ailasesu ein blaenoriaethau, ac ystyried ffyrdd newydd o weithio; a hynny wrth sicrhau bod pobl Casnewydd yn cael eu cefnogi, yn ddiogel ac yn parhau i dderbyn gwasanaethau hanfodol.

Fodd bynnag, er gwaethaf blwyddyn anodd arall, parhaodd y Cyngor yn ymrwymedig i'r Gymraeg ac i gynnig gwasanaethau dwyieithog. Buom yn gweithio'n agos gyda'n partneriaid Cymraeg, a rhanddeiliaid i ymateb i rai o'r heriau y maent wedi'u hwynebu dros y 12 mis diwethaf.

Fe'm calonogir gan ein gwaith parhaus gydag ystod eang o bartneriaid i godi proffil y Gymraeg yng Nghasnewydd ac yn enwedig y gwaith yr ydym yn ei gyflawni gyda'n rhanddeiliaid Casnewydd yn Un. Drwy Fwrdd Sgiliau Cywir Casnewydd rydym yn gweithio'n galed i greu hunaniaeth unffurf, rhannu arfer da a hyrwyddo'r Gymraeg fel sgil, sy'n sefydlu Casnewydd fel dinas lle mae'r Gymraeg a diwylliant Cymru yn wirioneddol ffynnu.

Mae'r adroddiad hwn yn nodi ein cydymffurfiaeth â Safonau'r Gymraeg ac yn cynnwys data y mae'n ofynnol i ni ei gyhoeddi ar gyfer blwyddyn ariannol 2020/2021. Er ein bod yn cydnabod i ni wneud cynnydd da mewn nifer o feysydd, byddwn yn parhau i weithio i wella ein perfformiad o ran y Gymraeg ar draws pob agwedd ar swyddogaethau'r Cyngor.

1. Cyd-destun Deddfwriaethol

Mae'r adroddiad blynyddol hwn wedi'i baratoi yn unol â Safonau'r Gymraeg 158, 164 a 170, a bydd yn tynnu sylw at sut mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg a gyflwynwyd i'r awdurdod gan Gomisiynydd y Gymraeg, a nodir yn Hysbysiad Cydymffurfio Cyngor Dinas Casnewydd.

Yn ogystal ag amlinellu cydymffurfiaeth gyffredinol yr awdurdod, mae'r adroddiad hwn hefyd yn cynnwys yr wybodaeth benodol sy'n ofynnol ei chyhoeddi'n flynyddol yn unol â'r Safonau. Mae hyn yn cynnwys data ar nifer y cwynion rydym wedi'u derbyn, lefelau iaith Gymraeg ein staff, yr hyfforddiant rydym yn ei gynnig drwy gyfrwng y Gymraeg a lefel y Gymraeg rydym yn gofyn amdani ar gyfer pob swydd wag a swyddi newydd rydym wedi'u hysbysebu yn ystod y flwyddyn ariannol.

2. Cyflwyniad

Eleni, mae'r cyngor wedi parhau i wynebu sawl her a gyflwynir gan sefyllfa barhaus y pandemig, cyfyngiadau COVID, a chyngor parhaus i weithio gartref sy'n golygu mai prin fu'r cyfleoedd i ymgysylltu â staff a chymunedau ledled Casnewydd. Mae angen i'r cyngor ganolbwyntio ar addasu i ffyrdd newydd o weithio a pharhau i ddarparu gwasanaethau i'n dinasyddion tra'n sicrhau bod staff yn ddiogel, a llywio'r risgiau sy'n gysylltiedig â phandemig byd-eang parhaus.

Bu'n rhaid i ni fod yn hyblyg er mwyn ymateb i COVID-19, gan ailasesu blaenoriaethau ac adleoli adnoddau. Cafodd yr heriau hyn eu nodi a'u cydnabod gan Gomisiynydd y Gymraeg, tra'n parhau i gydnabod yr angen, a'r gwerth o ddarparu gwasanaethau dwyieithog.

Un o'r heriau mwyaf arwyddocaol i'r cyngor eleni fu'r cyfyngiadau a osodwyd ar ymgysylltu wyneb yn wyneb, yn enwedig ar adeg y buom yn canolbwyntio ar wella'r gwaith o hyrwyddo'r Gymraeg ar draws ein cymunedau.

Wrth i lefel y cyfyngiadau ysgafnhau, llwyddwyd i weithredu cynllun Grant Cymraeg yn y Gymuned i gefnogi gweithgareddau ledled Casnewydd i hyrwyddo'r Gymraeg a llwyddwyd i gael lansiad meddal ar gyfer ein hymgyrch *Many Faces of Welsh-ness*, fel ffordd o greu hunaniaeth a chynwysoldeb Cymreig ar draws cymunedau Casnewydd ac fe lwyddom i benodi swyddog hybu'r Gymraeg.

Er gwaethaf y cyfyngiadau sy'n gysylltiedig â'r pandemig, rydym wedi gallu ymgysylltu â'n partneriaid mewn ffyrdd newydd, myfyrio ar ein prosesau mewnol, ac addasu i ffyrdd newydd o weithio sy'n edrych fel eu bod am barhau.

Mae Safonau'r Gymraeg yn parhau i roi fframwaith i'r cyngor weithio oddi mewn iddo tuag at ddyhead Llywodraeth Cymru o ddarparu gwasanaethau cyhoeddus hollol ddwyieithog.

Parhaodd y gwaith yn ystod y flwyddyn i ailystyried a datblygu fersiwn newydd o'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg ac i ddiweddaru'r Strategaeth Hyrwyddo 5 Mlynedd i lywio polisi, cynlluniau a rhaglenni gwaith ar draws y cyngor er mwyn helpu i gyflawni Strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru.

Mae'r adroddiad blynyddol hwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd cadarnhaol eleni, yn ogystal â nodi meysydd lle mae gennym waith i'w wneud o hyd. Mae'r cyngor yn parhau i fuddsoddi yn y Gymraeg, er mwyn cefnogi cydymffurfio mewnol â safonau ac i hwyluso partneriaeth a mentrau

cymunedol. Mae ein gwaith gyda'r Gymraeg hefyd yn parhau i gael ei gefnogi gan Hyrwyddwr Aelodau Etholedig.

3. Datblygiadau Allweddol

Swyddog Hybu'r Gymraeg

Fel y nodwyd yn adroddiad y llynedd, ailymwelodd y cyngor â'r swydd a llwyddodd i ailbenodi yn ystod yr hydref. Mae'r cylch gwaith yn parhau i gynnwys ymgysylltu â chymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig yn ardal Pilgwenlli yng Nghasnewydd i hyrwyddo addysg Gymraeg yno a hyrwyddo ar addysg Gymraeg yn gyffredinol. Er mwyn gwneud hyn, maent wedi datblygu Cynllun Hyrwyddo, a fydd yn cael ei gyflwyno a'i fonitro gyda chydweithwyr yn yr adran Addysg a rhanddeiliaid perthnasol. Mae'r rôl hefyd yn cynnwys hyrwyddo'r Gymraeg yn gyffredinol i staff a thrigolion Casnewydd.

Gweithiodd ein swyddog yn agos gydag ysgolion a rhanddeiliaid cymunedol i gefnogi a datblygu Cynllun Hyrwyddo a fydd yn cysoni deilliannau'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg a thargedau addysg cyffredinol. Byddant yn chwarae rhan allweddol yn y llywodraethiant a'r monitro ar y cynllun yn ystod y flwyddyn sydd i ddod.

Mae'r swyddog hefyd wedi cynorthwyo'r pedwar Pennaeth yn yr ysgolion Cymraeg ynghyd â rheolwr prosiect i ddatblygu nifer o weithdai ac adnoddau i'w huwchlwytho i HWB. Mae hyn wedi helpu disgyblion i ddatblygu eu sgiliau o ganlyniad i'r addysg a gollwyd ganddynt yn ystod y cyfnodau clo.

Yn fewnol, fe gefnogon nhw weithgareddau hyrwyddo i'r staff, gan gynnwys Cylchlythyr Dydd Gŵyl Dewi dwyieithog a chefnogi'r gwaith o gyflwyno sesiynau Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg.

Grant y Gymraeg yn y Gymuned

Mae Cyngor Dinas Casnewydd wedi sicrhau bod cyllid ar gael i gefnogi unigolion, grwpiau a sefydliadau cymunedol lleol i hyrwyddo, hwyluso a chynyddu'r defnydd o'r Gymraeg ledled Casnewydd. Roedd y grantiau, y bu'n rhaid gwneud cais amdanynt, ar gyfer y rhai a oedd yn dymuno datblygu prosiectau bach a fyddai'n

- Hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gymuned
- Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg mewn amgylcheddau cymdeithasol a rhai heb fod mewn amgylchedd addysgol.
- Cynyddu gweledededd y Gymraeg yng Nghasnewydd
- Cefnogi siaradwyr Cymraeg a dysgwyr ar draws y ddinas i ddefnyddio / ymarfer / datblygu eu sgiliau.

Mae'r cyllid ar gael ar gyfer amrywiaeth o wariant, a gallai gynnwys ond nid yw wedi ei gyfyngu i:

- Brynu deunyddiau ategol sydd i wella cyfathrebu neu ehangu cyrhaeddiad
- Talu costau digwyddiad neu weithgaredd yn y gymuned leol.
- Prynu offer newydd a bydd hynny'n hyrwyddo ac yn cefnogi'r defnydd o'r Gymraeg
- Costau sy'n gysylltiedig â datblygu deunyddiau cymorth a rhwydweithiau.

Yn ychwanegol at gynllun Grant y Gymraeg yn y Gymuned, cawsom:

- 13 o geisiadau gan amrywiaeth o Grwpiau Cymunedol
- gwerth ymgeisio cyffredinol o £32,614.79

Mae'r prosiectau hyn yn cwmpasu amrywiaeth o weithgareddau a grwpiau cymunedol, gyda rhai o'r prosiectau yn cael eu hariannu 100% o ganlyniad i'r cynllun.

Derbyniodd y cyngor nifer o geisiadau rhagorol gan grwpiau cymunedol, rhanddeiliaid a grŵp cenedlaethol sy'n gweithredu yng Nghasnewydd - roedd y rhain yn cynnwys Capel Mynydd Seion ar gyfer gorsaf radio gymunedol Gymraeg, Mudiad Meithirin i hyrwyddo gweithgareddau meithrin Cymraeg a'r Groes Goch Brydeinig i gefnogi a chynyddu'r defnydd, yr ymwybyddiaeth a gweledded y Gymraeg drwy dargedu ffoaduriaid/ceiswyr lloches a chymunedau Pobl Dduon, Asiaidd a Lleiafrifoedd Ethnig ehangach yn benodol.

Mae rhestr lawn i'w gweld yn Atodiad 1

Polisïau a Strategaethau

Dros y 12 mis diwethaf, er gwaethaf y cyfyngiadau parhaus ar ymgysylltu â'r gymuned a rhanddeiliaid, llwyddodd y cyngor i ddrafftio a chyhoeddi nifer o strategaethau a pholisïau newydd sy'n gysylltiedig â'r Gymraeg.

Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg

Mae hyn yn cynnwys y Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-2032, gyda chefnogaeth swyddog y Gymraeg a swyddog hybu'r Gymraeg a digwyddiadau ymgysylltu ag aelodau'r Fforwm Addysg Gymraeg. Mae'r cynllun wedi mynd drwy sianeli perthnasol ac wedi'i gymeradwyo gan y cyngor llawn ac mae bellach gyda Llywodraeth Cymru i'w gymeradwyo.

Cynllun Hyrwyddo Addysg Gymraeg

Mae Swyddog Hybu'r Gymraeg wedi drafftio cynllun hyrwyddo a fydd yn helpu i gyflawni'r canlyniadau a restrir yn y CSCA yn ogystal â rhestru gweithgareddau y bydd y cyngor a rhanddeiliaid yn ymgymryd â hwy i hyrwyddo addysg Gymraeg ledled Casnewydd. Ystyriwyd mewnbwn gan randdeiliaid sy'n aelod o'r grŵp hyrwyddo.

Polisi Sgiliau'r Gymraeg

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, mae uwch reolwyr wedi drafftio a chytuno ar bolisi sgiliau'r Gymraeg newydd a bydd yn dod yn weithredol ar ddechrau'r flwyddyn ariannol newydd. Cyflawnwyd y gwaith o baratoi ar gyfer y polisi gan yr Adran Adnoddau Dynol a'r Partner Busnes Datblygu Sefydliadol gyda chefnogaeth Swyddog y Gymraeg. Bydd hyn yn cynnwys mabwysiadu'r fframwaith ALTE fel ffordd o asesu gallu ieithyddol yn y Gymraeg, pob swydd yn cael ei hysbysebu fel rhai Cymraeg dymunol o leiaf a pholisi Cymraeg Clir er mwyn helpu i gefnogi a datblygu hyder yr holl siaradwyr Cymraeg ar draws y cyngor.

Strategaeth Hyrwyddo 5 Mlynedd

Ein gweledigaeth ar gyfer y Gymraeg yw: ***"Gweld, Clywed, Dysgu, Defnyddio, Caru"*** ac i bawb yng Nghasnewydd ddefnyddio, gweld a chlywed y Gymraeg fel iaith fyw ym mhob agwedd ar fywyd ar draws y ddinas ac ar draws yr holl gymunedau amrywiol.

Mae'r Strategaeth hon wedi'i llywio gan y bobl sy'n byw yng Nghasnewydd, rhanddeiliaid y Gymraeg ac adborth gan bartneriaid mewnol ac allanol. Yn ystod 2021 lansiwyd nifer o arolygon cymunedol gennym i ddarganfod mwy am yr hyn yr oedd pobl yng Nghasnewydd yn ei feddwl am y Gymraeg, i lywio ffocws ein themâu strategol. Cafwyd tua 600 o ymatebion. Mae'r Strategaeth wedi ei seilio ar 3 thema strategol i wireddu ein gweledigaeth, gan ystyried canfyddiadau ein ymgynghoriad, proffil ieithyddol y ddinas, ein blaenoriaethau Cymraeg presennol a'n dyheadau ar gyfer twf y Gymraeg - Thema 1: Cymunedau a Diwylliant, Thema 2: Addysg, a Thema 3: Cyflogwyr a Sgiliau.

Hyrwyddo Addysg Ddwyieithog

Gan weithio gyda chydweithwyr yn y Tîm Cymunedau Cysylltiedig, nodwyd nifer o ieithoedd cymunedol yng Nghasnewydd; yna gwnaethom drefnu a hwyluso'r gwaith o gyfieithu llyfryn y Cyngor i rieni "Dod yn Ddwyieithog" i 12 iaith wahanol.

Hyrwyddo'r Gymraeg

Yn ogystal â gwaith ein Swyddog Hyrwyddo, mae'r cyngor hefyd wedi:

- Parhau i hyrwyddo dyddiadau allweddol gydol y flwyddyn i gymunedau a staff, gan gynnwys Dydd Gŵyl Dewi a Diwrnod Shwmae
- Wedi noddi a chefnogi Gŵyl Newydd, yr ŵyl Gymraeg flynyddol, eleni wedi'i chyflwyno dros blatfformau digidol ac ar yr ap AM. Roedd yn cynnwys fideos o 4 band ar safleoedd eiconig yng Nghasnewydd.
- Wedi parhau i ddarparu cynrychiolaeth ar fforymau lleol gan gynnwys Mwy na Geiriau, y Fforwm Iaith a Rhwydiaith

Cyflogaeth a Sgiliau

Mae'r Bwrdd Sgiliau Cywir, sy'n adrodd i Gasnewydd yn Un, ein Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC), yn fforwm partneriaeth sy'n ceisio sicrhau bod pobl yn gallu manteisio ar raglenni sgiliau ac addysg sy'n cefnogi bywyd sy'n cael ei fyw'n dda. Mae hyn yn cyd-fynd â chyfleoedd cyflogaeth lleol cynaliadwy ar hyn o bryd ac yn y dyfodol, gan alluogi unigolion a chymunedau i wireddu eu potensial.

Eleni, rydym wedi creu grŵp Gorchwyl a Gorffen a fydd yn adolygu ac yn bwrw golwg dros y sefyllfa bresennol o ran lefelau sgiliau iaith Gymraeg ar draws aelodau BGC Casnewydd, y trydydd sector ac eraill. Bydd hyn yn ystyried argymhellion ar sut y gallwn gydweithio i hyrwyddo a chefnogi datblygiad sgiliau iaith Gymraeg ar draws y ddinas. Ar hyn o bryd mae'r grŵp yn datblygu cyfres o argymhellion trawsbynciol i'r Bwrdd eu hystyried.

Mae'r cyngor wedi parhau i weithio gyda Gyrfa Cymru i gefnogi'r gwaith o greu nifer o ddigwyddiadau i hyrwyddo'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle, gyrfaoedd a digwyddiadau Cymraeg drwy gyfrwng y Gymraeg.

Rydym wedi cyflwyno'r ymchwil wedi'i chwblhau gyda'r nod o ddeall yn well y bylchau mewn sgiliau Cymraeg ar draws gofal plant ac addysg y blynyddoedd cynnar i Grŵp Gweithredu'r Gymraeg. O ganlyniad, mae'r adran addysg wedi bod yn edrych ar weithio gyda Gyrfa Cymru i ddatblygu rhaglen

a sesiynau i hyrwyddo gyrfaoedd yn y maes hwn. Dros y 12 mis nesaf ein bwriad fydd ceisio cyflwyno'r canfyddiadau i grwpiau perthnasol eraill.

Golwg yn ôl ar 2021/22

Yn dilyn blwyddyn a oedd yn golygu bod angen canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau hanfodol i'n cymunedau, a chyfyngu ar rywfaint o'n gwaith arfaethedig ar y Gymraeg, ein nod yw parhau eleni â nifer o flaenoriaethau a nodwyd y llynedd. Parhaodd y flwyddyn i gyflwyno nifer o heriau gan fod y sefyllfa barhaus unwaith eto wedi effeithio ar gyfleoedd i gymryd rhan yn y ffordd yr oeddem wedi ei chynllunio.

Fodd bynnag, fe lwyddom i barhau i:

- Weithio gyda'n cymunedau o ffoaduriaid, mudwyr a chymunedau lleiafrifoedd ethnig i ymwreiddio'r Gymraeg yn well fel rhan o ymdeimlad o hunaniaeth a rennir ar draws y ddinas, yn enwedig yng nghyd-destun datblygu ein pedwaredd ysgol Gymraeg
- Gwella, datblygu a dechrau cyflwyno Polisi Sgiliau Iaith Gymraeg newydd. Mae prosesau bellach wedi'u gweithredu ac yn eu lle i hwyluso cyflawni'r flwyddyn nesaf.
- Datblygu trefniadau partneriaeth creadigol y tu allan i'r sector cyhoeddus a gwirfoddol i godi proffil y Gymraeg ledled Casnewydd. Roedd hyn yn cynnwys gweithio gyda rhanbarth rygbi'r Dreigiau a Chlwb Pêl-droed Casnewydd i hyrwyddo'r Gymraeg.

Gwnaethom hefyd barhau i:

- Ymgysylltu ac ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol a'n cymunedau i lywio'r gwaith o ddatblygu ein Strategaeth Gymraeg 5 mlynedd newydd sydd wedi'i phasio gyda chefnogaeth lawn y Cyngor.
- Mabwysiadu nifer o egwyddorion Cymraeg Clir i annog staff yn well i ddefnyddio'r Gymraeg yn y gweithle fel rhan o'n polisi Sgiliau'r Gymraeg
- Darparu dull cydlynol o ddatblygu sgiliau Cymraeg ar draws ein partneriaid yn y BGC drwy'r Bwrdd Sgiliau Cywir

4. Monitro

A. Gofynion Cymhwysedd Cymraeg ar gyfer swyddi newydd (pob swydd)

Mae tîm Adnoddau Dynol (AD) y Cyngor yn ymgymryd ag Asesiad o'r Gymraeg ar gyfer pob swydd newydd a hysbysebir trwy ein proses recriwtio arferol gan ddefnyddio ein system AD, iTrent. Nid yw rolau a gaiff eu hadolygu fel rhan o ailstrwythuro yn destun asesiad o'r Gymraeg oherwydd eu bod yn dod y tu allan i'r broses safonol hon.

Nifer y swyddi newydd 2017/18	Nifer y swyddi newydd 2018/19	Nifer y swyddi newydd 2019/20	Nifer y swyddi newydd 2020/21	Nifer y swyddi newydd 2021/22
577	175	72	291	392

2017/18		
Gofyniad Cymhwysedd Cymraeg	**Nifer**	**Canran o'r Cyfanswm**
Hanfodol	26	4.5%
Dymunol	51	8.8%
Ddim yn angenrheidiol	499	86.5%
I'w dysgu wrth weithio yn y swydd	1	0.2%
Cyfanswm	577	
2018/19		
Gofyniad Cymhwysedd Cymraeg	**Nifer**	**Canran o'r Cyfanswm**
Hanfodol	5	2.9%
Dymunol	18	10.3%
Ddim yn angenrheidiol	151	86.3%
I'w dysgu wrth weithio yn y swydd	1	0.1%
Cyfanswm	175	
2019/20		
Gofyniad Cymhwysedd Cymraeg	**Nifer**	**Canran o'r Cyfanswm**
Hanfodol	4	5.56%
Dymunol	6	8.33%
Ddim yn angenrheidiol	62	86.11%
I'w dysgu wrth weithio yn y swydd	0	
Cyfanswm	72	
2020/21		
Gofyniad Cymhwysedd Cymraeg	**Nifer**	**Canran o'r Cyfanswm**
Hanfodol	6	2.06
Dymunol	17	5.84
Ddim yn angenrheidiol	268	92.10
I'w dysgu wrth weithio yn y swydd	0	
Cyfanswm	291	
2021/22		
Gofyniad Cymhwysedd Cymraeg	**Nifer**	**Canran o'r Cyfanswm**
Hanfodol	11	2.8
Dymunol	43	11
Ddim yn angenrheidiol	338	86.2
I'w dysgu wrth weithio yn y swydd	0	0
Cyfanswm	392	

B. Cwynion

Caiff cwynion Cymraeg a dderbyniwn gan y cyhoedd eu cofnodi gan ein Canolfan Gyswllt drwy system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (RhCC) y Cyngor, sy'n golygu bod pob cwyn Gymraeg yn cael ei chofnodi a'i rhannu'n gywir gyda swyddogion priodol i weithredu arni. Mae cwynion hefyd yn eitem sefydlog ar yr agenda yng Ngrŵp Gweithredu'r Gymraeg y cyngor lle y trafodir camau adferol a dysgu. Mae hyn yn cynnwys cwynion a dderbyniwn gan y cyhoedd, neu drwy Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.

Yn 2021/2022 derbyniodd y cyngor gyfanswm o 4 cwyn: 2 yn uniongyrchol i'r Cyngor a 2 drwy swyddfa Comisiynydd y Gymraeg.

Cwynion Uniongyrchol
O ran y cwynion a dderbyniwyd yn uniongyrchol i'r Cyngor, mae un yn parhau a chaiff ei adrodd fel rhan o adroddiad 2022/2023 gan ei fod mynd rhagddo. Derbyniwyd yr ail gŵyn hefyd drwy Gomisiynydd y Gymraeg ac ar hyn o bryd mae'n ddarostyngedig i weithdrefn eu cwynion, a bydd adroddiad ar hyn hefyd yn adroddiad y flwyddyn nesaf.

Comisiynydd y Gymraeg
Fel y nodwyd, derbyniodd y cyngor 2 gŵyn gan swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, mae un gŵyn yn dal ar agor ac adroddir arni y flwyddyn nesaf.

Roedd yr ail gŵyn yn ymwneud â ffurflen cyflenwr newydd. Mae'r mater wedi'i gywiro a'i gau ac atgoffwyd y cyngor fod angen iddo barhau i hyrwyddo gwasanaethau Cymraeg. Gwnaethom ailedrych ar y broses o gynnig gwasanaeth / ffurflenni Cymraeg drwy ddull cyffyrddiad meddal a hyfforddi'r rhai yn yr adran berthnasol ynglŷn â'n rhwymedigaethau a'n hymwybyddiaeth o ran y Gymraeg.

Yn dilyn yr ymosodiad seibr a meddalwedd wystlo yn Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, rydym yn parhau i gefnogi a darparu diweddariadau yn ôl y gofyn yn ymwneud â data hanesyddol.

C. Hyfforddiant

Dan Safon 128, mae'n rhaid i'r Awdurdod gynnig rhaglenni hyfforddi drwy gyfrwng y Gymraeg ar gyfer y cyrsiau canlynol:

- Iechyd a diogelwch ar gyfer rheolwyr
- Sefydlu corfforaethol
- Rheoli perfformiad
- Cwrs sefydlu rheolaeth gorfforaethol

O'r cyrsiau a gynigir yn Gymraeg, ni ofynnwyd am unrhyw un gan aelodau staff, ac felly roedd presenoldeb yn 0% ar gyfer staff sy'n cwblhau'r cyrsiau drwy gyfrwng y Gymraeg

D. Hyfforddiant Cymraeg

Oherwydd y sefyllfa barhaus yn ystod y flwyddyn ddiwethaf gyda'r pandemig, y sefyllfa o ran gweithio gartref a phwysau gwaith ychwanegol, nid yw'r grŵp a sefydlwyd gan y cyngor i brofi effeithiolrwydd yr ap 'Say Something in Welsh' wedi gallu gweithredu'n llawn o hyd. Roedd y grŵp yn cynnwys staff rheng flaen ac uwch reolwyr. Roedd gofynion gweithredol a phwysau gwaith ychwanegol a grëwyd gan COVID-19 yn golygu na chafodd hyn ei ddatblygu yn ôl y disgwyl. Byddwn yn ailedrych ar y grŵp hwn pan fo'n bosibl gyda'r bwriad o ychwanegu'r ap at ein darpariaeth hyfforddiant pe bai'n effeithiol.

Cafodd y pandemig parhaus effaith sylweddol hefyd ar ddarparu hyfforddiant iaith Gymraeg yn yr ystafell ddosbarth, gan fod trefniadau wedi'u gwneud i ddarparu'r cyrsiau'n rhithwir ac roedd gweithio gartref yn parhau i effeithio ar hyfforddiant mewn ystafell ddosbarth. Effeithiwyd hefyd ar

hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn fewnol, er wrth i'r cyngor addasu i weithio gartref, mae elfennau o'r cwrs wedi'u cyflwyno yn rhithwir gyda chynnydd mewn presenoldeb.

Gobeithiwn fynd i'r afael â hyn yn 2022/23 wrth gyflwyno ein fideos Cymraeg a gomisiynwyd gennym, a fydd yn orfodol i'r holl staff ac yn hawdd eu cyrchu wrth weithio o bell.

Teitl y Cwrs	2018/19	2019/20	2020/21	2021/22
Cwrs Gwella i Siaradwyr Cymraeg	0	**0**	**2**	**-**
Cyflwyniad deuddydd i'r Gymraeg	8	**0**	**0**	**-**
Cymraeg Gwaith, Cwrs Blasu 90 munud	16	**10**	**7**	**-**
Cwrs Lefel Mynediad 30 wythnos (Blwyddyn 1)	13	**8**	**0**	**31**
Cwrs Lefel Mynediad 30 wythnos (Blwyddyn 2)	6	**11**	**0**	**11**
Cwrs Lefel Sylfaen 30 wythnos (Blwyddyn 1)	7	**5**	**0**	**2**
Cwrs Lefel Sylfaen 30 wythnos (Blwyddyn 2)				**7**
Canolradd – Blwyddyn 1				**2**
Canolradd – Blwyddyn 2				**6**
Cwrs Gwella i Siaradwyr Cymraeg	8	**8**	**0**	**-**
Ap Say Something in Welsh			**30**	**30**

Teitl y Cwrs	2018/2019	2019/2020	2020/2021	2021/2022
Ymwybyddiaeth o'r Gymraeg	6	38	9	28

E. Sgiliau Cymraeg Cyflogeion (ar 31/03/21)

Niferoedd 2016/17	Niferoedd 2017/18	Niferoedd 2018/19	Niferoedd 2019/20	Niferoedd 2020/21	Cyfrif 2021/2022
6,147	5,949	5842	5785	5865	5980

Rhestr Sefydliad

	Nifer y Cyflogeion yn ôl Sgôr 2016/17				
Cymhwysedd Cymraeg	**Dim**	**Dechreuwr**	**Canolradd**	**Uwch**	**Dim Cofnod ***
Darllen	2,782	1,135	210	158	1,833
Llafar	2,574	1,324	210	183	1,856
Dealltwriaeth	2,606	1,272	224	193	1,852
Ysgrifenedig	2,830	1,079	198	171	1,869
Canran y niferoedd	43.9%	19.6%	3.4%	2.9%	30.1%
	Nifer y Cyflogeion yn ôl Sgôr 2017/18				
Cymhwysedd Cymraeg	**Dim**	**Dechreuwr**	**Canolradd**	**Uwch**	**Dim Cofnod**
Darllen	2,710	1,154	220	193	1,672
Llafar	2,531	1,329	217	189	1,683
Dealltwriaeth	2,546	1,290	233	198	1,682
Ysgrifenedig	2,764	1,101	208	177	1,699
Canran y niferoedd	44.3%	20.5%	3.7%	3.1%	28.4%

	Nifer y Cyflogeion yn ôl Sgôr 2018/19				
Cymhwysedd Cymraeg	**Dim**	**Dechreuwr**	**Canolradd**	**Uwch**	**Dim Cofnod**
Darllen	2702	1156	208	211	1565
Llafar	2507	1342	211	206	1576
Dealltwriaeth	2523	1305	226	215	1573
Ysgrifenedig	2750	1,106	198	195	1593
Canran y niferoedd	44.9%	21.0%	3.6%	3.5%	27.0%
	Nifer y Cyflogeion yn ôl Sgôr 2019/20				
Cymhwysedd Cymraeg	**Dim**	**Dechreuwr**	**Canolradd**	**Uwch**	**Dim Cofnod**
Darllen	2694	1211	221	225	1434
Llafar	2500	1392	230	218	1445
Dealltwriaeth	2513	1366	231	231	1444
Ysgrifenedig	2763	1147	207	206	1452
Canran y niferoedd	45.2%	22.1%	3.8%	3.8%	25%
	Nifer y Cyflogeion yn ôl Sgôr 2020/21				
Cymhwysedd Cymraeg	**Dim**	**Dechreuwr**	**Canolradd**	**Uwch**	**Dim Cofnod**
Darllen	2692	1253	234	240	1446
Llafar	2489	1449	236	235	1456
Dealltwriaeth	2506	1421	240	248	1450
Ysgrifenedig	2752	1197	213	222	1481
Canran y niferoedd	42.73%	24.23%	4.09%	4.23%	24.72%
	Nifer y Cyflogeion yn ôl Sgôr 2021/2022				
Cymhwysedd Cymraeg	**Dim**	**Dechreuwr**	**Canolradd**	**Uwch**	**Dim Cofnod**
Darllen	2577	1273	241	234	1655
Llafar	2358	1460	243	232	1687
Dealltwriaeth	2383	1437	248	242	1670
Ysgrifenedig	2618	1214	220	213	1715
Canran y niferoedd	39.85%	24.03%	4.15%	4.05%	27.93%

Yn Ôl Gwasanaeth:

Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol

	Nifer y Cyflogeion Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol yn ôl Sgôr 2021/22				
Cymhwysedd Cymraeg	**Dim**	**Dechreuwr**	**Canolradd**	**Uwch**	**Dim Cofnod**
Darllen	215	30	4	8	197
Llafar	207	34	5	8	200
Dealltwriaeth	206	34	4	9	201
Ysgrifenedig	219	20	3	8	204
	Nifer y Cyflogeion Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol yn ôl Sgôr 2020/21				
Cymhwysedd Cymraeg	**Dim**	**Dechreuwr**	**Canolradd**	**Uwch**	**Dim Cofnod**

Darllen	244	21	6	11	207
Llafar	239	37	8	10	195
Dealltwriaeth	238	37	5	13	196
Ysgrifenedig	251	23	5	11	199
	Nifer y Cyflogeion Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol yn ôl Sgôr 2019/20				
Cymhwysedd Cymraeg	**Dim**	**Dechreuwr**	**Canolradd**	**Uwch**	**Dim Cofnod**
Darllen	252	31	6	11	201
Llafar	244	39	7	10	201
Dealltwriaeth	244	37	6	12	202
Ysgrifenedig	258	23	5	11	204
	Nifer y Cyflogeion Gwasanaethau Oedolion a Chymunedol yn ôl Sgôr 2018/19				
Cymhwysedd Cymraeg	**Dim**	**Dechreuwr**	**Canolradd**	**Uwch**	**Dim Cofnod**
Darllen	280	30	3	9	268
Llafar	270	39	5	8	268
Dealltwriaeth	270	37	5	9	269
Ysgrifenedig	285	23	2	9	271

Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc

	Nifer y Cyflogeion Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc yn ôl Sgôr 2021/22				
Cymhwysedd Cymraeg	**Dim**	**Dechreuwr**	**Canolradd**	**Uwch**	**Dim Cofnod**
Darllen	207	52	8	13	159
Llafar	189	63	11	12	164
Dealltwriaeth	187	69	8	15	160
Ysgrifenedig	205	44	12	12	166
	Nifer y Cyflogeion Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc yn ôl Sgôr 2020/21				
Cymhwysedd Cymraeg	**Dim**	**Dechreuwr**	**Canolradd**	**Uwch**	**Dim Cofnod**
Darllen	222	55	8	14	114
Llafar	209	67	12	13	112
Dealltwriaeth	206	71	8	16	112
Ysgrifenedig	228	43	12	13	117
	Nifer y Cyflogeion Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc yn ôl Sgôr 2019/20				
Cymhwysedd Cymraeg	**Dim**	**Dechreuwr**	**Canolradd**	**Uwch**	**Dim Cofnod**
Darllen	217	54	7	11	109
Llafar	206	64	11	9	108
Dealltwriaeth	203	67	7	12	109
Ysgrifenedig	224	42	10	10	112
	Nifer y Cyflogeion Gwasanaethau Plant a Phobl Ifanc yn ôl Sgôr 2018/19				

Cymhwysedd Cymraeg	Dim	Dechreuwr	Canolradd	Uwch	Dim Cofnod
Darllen	206	43	8	11	119
Llafar	202	47	11	9	117
Dealltwriaeth	200	49	8	11	120
Ysgrifenedig	211	32	11	10	122

People and Business Change

	Nifer y Cyflogeion Pobl a Newid Busnes yn ôl Sgôr 2021/22				
Cymhwysedd Cymraeg	Dim	Dechreuwr	Canolradd	Uwch	Dim Cofnod
Darllen	72	10	1	4	45
Llafar	66	12	1	4	49
Dealltwriaeth	66	14	1	4	47
Ysgrifenedig	68	9	2	3	50
	Nifer y Cyflogeion Pobl a Newid Busnes yn ôl Sgôr 2020/21				
Cymhwysedd Cymraeg	Dim	Dechreuwr	Canolradd	Uwch	Dim Cofnod
Darllen	70	13	2	3	38
Llafar	65	17	2	3	39
Dealltwriaeth	64	18	2	3	39
Ysgrifenedig	70	11	3	2	40
	Nifer y Cyflogeion Pobl a Newid Busnes yn ôl Sgôr 2019/20				
Cymhwysedd Cymraeg	Dim	Dechreuwr	Canolradd	Uwch	Dim Cofnod
Darllen	76	13	3	3	38
Llafar	71	18	3	3	38
Dealltwriaeth	72	16	3	4	38
Ysgrifenedig	76	12	4	2	39
	Nifer y Cyflogeion Pobl a Newid Busnes yn ôl Sgôr 2018/19				
Cymhwysedd Cymraeg	Dim	Dechreuwr	Canolradd	Uwch	Dim Cofnod
Darllen	81	15	3	2	27
Llafar	73	23	3	2	27
Dealltwriaeth	75	20	3	3	27
Ysgrifenedig	81	14	3	2	28

Adfywio, Buddsoddi a Thai

	Nifer y Cyflogeion Adfywio, Buddsoddi a Thai yn ôl Sgôr 2021/22				
Cymhwysedd Cymraeg	Dim	Dechreuwr	Canolradd	Uwch	Dim Cofnod
Darllen	255	113	14	9	152

Llafar	214	137	17	8	167
Dealltwriaeth	226	132	13	9	163
Ysgrifenedig	251	95	15	7	175
	Nifer y Cyflogeion Adfywio, Buddsoddi a Thai yn ôl Sgôr 2020/21				
Cymhwysedd Cymraeg	**Dim**	**Dechreuwr**	**Canolradd**	**Uwch**	**Dim Cofnod**
Darllen	283	116	15	9	119
Llafar	245	142	17	9	129
Dealltwriaeth	254	138	15	9	126
Ysgrifenedig	281	105	16	8	132
	Nifer y Cyflogeion Adfywio, Buddsoddi a Thai yn ôl Sgôr 2019/20				
Cymhwysedd Cymraeg	**Dim**	**Dechreuwr**	**Canolradd**	**Uwch**	**Dim Cofnod**
Darllen	289	124	14	12	109
Llafar	252	147	19	11	119
Dealltwriaeth	258	145	14	12	119
Ysgrifenedig	289	111	15	11	122
	Nifer y Cyflogeion Adfywio, Buddsoddi a Thai yn ôl Sgôr 2018/19				
Cymhwysedd Cymraeg	**Dim**	**Dechreuwr**	**Canolradd**	**Uwch**	**Dim Cofnod**
Darllen	308	116	12	15	85
Llafar	269	142	16	15	95
Dealltwriaeth	278	139	15	15	94
Ysgrifenedig	299	116	14	14	131

Cyflogeion Ysgol

	Nifer y Cyflogeion Ysgol yn ôl Sgôr 2021/22				
Cymhwysedd Cymraeg	**Dim**	**Dechreuwr**	**Canolradd**	**Uwch**	**Dim Cofnod**
Darllen	1300	945	197	171	748
Llafar	1165	1078	194	171	753
Dealltwriaeth	1186	1053	207	176	739
Ysgrifenedig	1336	935	172	159	759
	Nifer y Cyflogeion Ysgol yn ôl Sgôr 2020/21				
Cymhwysedd Cymraeg	**Dim**	**Dechreuwr**	**Canolradd**	**Uwch**	**Dim Cofnod**
Darllen	1297	916	187	173	706
Llafar	1166	1053	181	171	708
Dealltwriaeth	1179	1028	196	176	700
Ysgrifenedig	1331	905	162	161	720
	Nifer y Cyflogeion Ysgol yn ôl Sgôr 2019/20				
Cymhwysedd Cymraeg	**Dim**	**Dechreuwr**	**Canolradd**	**Uwch**	**Dim Cofnod**
Darllen	1296	881	177	163	738
Llafar	1170	1008	178	160	739

Dealltwriaeth	1182	987	189	165	732
Ysgrifenedig	1335	862	159	151	748
	Nifer y Cyflogeion Ysgol yn ôl Sgôr 2018/19				
Cymhwysedd Cymraeg	**Dim**	**Dechreuwr**	**Canolradd**	**Uwch**	**Dim Cofnod**
Darllen	1269	851	166	155	773
Llafar	1146	977	163	152	776
Dealltwriaeth	1156	953	182	157	766
Ysgrifenedig	1293	841	154	143	783

Cyfarwyddwyr Strategol

	Nifer y Cyfarwyddwyr Strategol yn ôl Sgôr 2021/22				
Cymhwysedd Cymraeg	**Dim**	**Dechreuwr**	**Canolradd**	**Uwch**	**Dim Cofnod**
Darllen	3	1	-	-	-
Llafar	2	2	-	-	-
Dealltwriaeth	3	1	-	-	-
Ysgrifenedig	4	-	-	-	-
	Nifer y Cyfarwyddwyr Strategol yn ôl Sgôr 2020/21				
Cymhwysedd Cymraeg	**Dim**	**Dechreuwr**	**Canolradd**	**Uwch**	**Dim Cofnod**
Darllen	1	0	1	1	0
Llafar	0	1	0	0	0
Dealltwriaeth	0	0	0	0	0
Ysgrifenedig	0	0	0	0	0
	Nifer y Cyfarwyddwyr Strategol yn ôl Sgôr 2019/20				
Cymhwysedd Cymraeg	**Dim**	**Dechreuwr**	**Canolradd**	**Uwch**	**Dim Cofnod**
Darllen	1	1	0	0	1
Llafar	0	2	0	0	1
Dealltwriaeth	1	1	0	0	1
Ysgrifenedig	1	1	0	0	1
	Nifer y Cyfarwyddwyr Strategol yn ôl Sgôr 2018/19				
Cymhwysedd Cymraeg	**Dim**	**Dechreuwr**	**Canolradd**	**Uwch**	**Dim Cofnod**
Darllen	1	1	0	0	1
Llafar	0	2	0	0	1
Dealltwriaeth	1	1	0	0	1
Ysgrifenedig	1	1	0	0	1

Y Gyfraith a Rheoleiddio

	Nifer Cyflogeion y Gyfraith a Rheoliadau yn ôl Sgôr 2021/22				
Cymhwysedd Cymraeg	**Dim**	**Dechreuwr**	**Canolradd**	**Uwch**	**Dim Cofnod**
Darllen	70	16	6	3	33

Llafar	67	17	6	3	35
Dealltwriaeth	64	20	5	3	36
Ysgrifenedig	69	15	5	3	36
	Nifer Cyflogeion y Gyfraith a Rheoliadau yn ôl Sgôr 2020/21				
Cymhwysedd Cymraeg	**Dim**	**Dechreuwr**	**Canolradd**	**Uwch**	**Dim Cofnod**
Darllen	192	37	11	7	73
Llafar	188	41	9	9	73
Dealltwriaeth	185	44	11	7	73
Ysgrifenedig	193	34	10	8	75
	Nifer Cyflogeion y Gyfraith a Rheoliadau yn ôl Sgôr 2019/20				
Cymhwysedd Cymraeg	**Dim**	**Dechreuwr**	**Canolradd**	**Uwch**	**Dim Cofnod**
Darllen	151	27	5	9	28
Llafar	149	29	6	8	28
Dealltwriaeth	146	31	5	9	29
Ysgrifenedig	154	24	6	8	28
	Nifer Cyflogeion y Gyfraith a Rheoliadau yn ôl Sgôr 2018/19				
Cymhwysedd Cymraeg	**Dim**	**Dechreuwr**	**Canolradd**	**Uwch**	**Dim Cofnod**
Darllen	159	26	5	8	28
Llafar	157	28	5	8	28
Dealltwriaeth	154	31	5	8	28
Ysgrifenedig	162	23	6	7	28

Addysg

	Nifer y Cyflogeion Addysg yn ôl Sgôr 2021/22				
Cymhwysedd Cymraeg	**Dim**	**Dechreuwr**	**Canolradd**	**Uwch**	**Dim Cofnod**
Darllen	90	35	8	7	164
Llafar	82	45	8	5	164
Dealltwriaeth	87	41	8	7	161
Ysgrifenedig	97	30	7	6	164
	Nifer y Cyflogeion Addysg yn ôl Sgôr 2020/21				
Cymhwysedd Cymraeg	**Dim**	**Dechreuwr**	**Canolradd**	**Uwch**	**Dim Cofnod**
Darllen	94	36	7	6	128
Llafar	86	46	7	4	128
Dealltwriaeth	90	40	7	6	128
Ysgrifenedig	101	31	7	4	128
	Nifer y Cyflogeion Addysg yn ôl Sgôr 2019/20				
Cymhwysedd Cymraeg	**Dim**	**Dechreuwr**	**Canolradd**	**Uwch**	**Dim Cofnod**
Darllen	105	37	5	7	128
Llafar	98	46	3	7	128

Dealltwriaeth	101	41	5	7	128
Ysgrifenedig	113	31	4	6	128
	Nifer y Cyflogeion Addysg yn ôl Sgôr 2018/19				
Cymhwysedd Cymraeg	**Dim**	**Dechreuwr**	**Canolradd**	**Uwch**	**Dim Cofnod**
Darllen	114	39	6	6	131
Llafar	106	50	4	6	130
Dealltwriaeth	110	42	6	6	132
Ysgrifenedig	123	32	5	5	131

Gwasanaethau Strydlun a'r Ddinas

	Nifer y Cyflogeion Strydlun a Gwasanaethau Dinas yn ôl Sgôr 20201/22				
Cymhwysedd Cymraeg	**Dim**	**Dechreuwr**	**Canolradd**	**Uwch**	**Dim Cofnod**
Darllen	169	25	2	6	114
Llafar	166	28	2	7	113
Dealltwriaeth	168	26	0	7	115
Ysgrifenedig	170	24	1	6	115
	Nifer y Cyflogeion Strydlun a Gwasanaethau Dinas yn ôl Sgôr 2020/21				
Cymhwysedd Cymraeg	**Dim**	**Dechreuwr**	**Canolradd**	**Uwch**	**Dim Cofnod**
Darllen	263	32	14	4	101
Llafar	259	35	15	4	101
Dealltwriaeth	259	36	15	2	102
Ysgrifenedig	269	29	12	4	100
	Nifer y Cyflogeion Strydlun a Gwasanaethau Dinas yn ôl Sgôr 2019/20				
Cymhwysedd Cymraeg	**Dim**	**Dechreuwr**	**Canolradd**	**Uwch**	**Dim Cofnod**
Darllen	275	32	5	10	102
Llafar	274	32	5	11	102
Dealltwriaeth	272	35	3	11	103
Ysgrifenedig	280	30	3	8	101
	Nifer y Cyflogeion Strydlun a Gwasanaethau Dinas yn ôl Sgôr 2018/19				
Cymhwysedd Cymraeg	**Dim**	**Dechreuwr**	**Canolradd**	**Uwch**	**Dim Cofnod**
Darllen	263	28	6	6	107
Llafar	262	29	5	7	107
Dealltwriaeth	261	30	4	7	108
Ysgrifenedig	267	27	4	6	106

Cyllid

	Nifer y Cyflogeion Cyllid yn ôl Sgôr 2021/22				
Cymhwysedd Cymraeg	**Dim**	**Dechreuwr**	**Canolradd**	**Uwch**	**Dim Cofnod**
Darllen	50	26	1	1	26
Llafar	52	25	1	1	25
Dealltwriaeth	50	23	1	1	29
Ysgrifenedig	52	24	1	1	26
	Nifer y Cyflogeion Cyllid yn ôl Sgôr 2019/20				
	Nifer y Cyflogeion Cyllid yn ôl Sgôr 2020/21				
Cymhwysedd Cymraeg	**Dim**	**Dechreuwr**	**Canolradd**	**Uwch**	**Dim Cofnod**
Darllen	50	24	1	1	21
Llafar	51	23	1	1	21
Dealltwriaeth	50	21	1	1	24
Ysgrifenedig	62	22	1	1	11
	Nifer y Cyflogeion Cyllid yn ôl Sgôr 2019/20				
Cymhwysedd Cymraeg	**Dim**	**Dechreuwr**	**Canolradd**	**Uwch**	**Dim Cofnod**
Darllen	50	23	1	1	22
Llafar	51	22	1	1	22
Dealltwriaeth	50	20	1	1	25
Ysgrifenedig	52	21	1	1	22
	Nifer y Cyflogeion Cyllid yn ôl Sgôr 2018/19				
Cymhwysedd Cymraeg	**Dim**	**Dechreuwr**	**Canolradd**	**Uwch**	**Dim Cofnod**
Darllen	48	20	1	1	22
Llafar	49	19	1	1	22
Dealltwriaeth	48	17	1	1	25
Ysgrifenedig	50	18	1	1	22

*Nid oes cofnod yn cyfeirio at y staff nad ydynt wedi nodi eu gallu yn y Gymraeg

F. Trosolwg ar y gwaith yn unol â'r Safonau

Safonau Cyflenwi Gwasanaethau

Effeithiwyd ar ein hadolygiad arfaethedig ar ein cydymffurfiaeth â Safonau Cyflenwi Gwasanaethau unwaith eto eleni oherwydd y pandemig parhaus, ond mae'r awdurdod yn parhau i ddangos cynnydd cadarnhaol, yn enwedig drwy'r agwedd gadarnhaol a ddangosir tuag at y Gymraeg gan staff. Mae cysondeb darparu gwasanaethau ar draws y sefydliad yn heriol o hyd, fodd bynnag gan fod Safonau Darparu Gwasanaethau'n ymwneud â gwasanaethau rheng flaen i aelodau'r cyhoedd, bydd y Safonau hyn yn parhau'n flaenoriaeth i ni, i'n Grŵp Gweithredu'r Gymraeg ac i'r cynllun gweithredu corfforaethol. Mae staffio a recriwtio yn parhau i fod yn anodd ac mae'n cyflwyno heriau sylweddol i'r awdurdod o ran parhau i ddarparu gwasanaethau.

Safonau Llunio Polisi

Mae'r broses Asesu Effaith ar Degwch a Chydraddoldeb wedi'i diweddaru wedi'i chyhoeddi a rhoddwyd hyfforddiant i aelodau allweddol o staff sy'n ymwneud â'r broses o wneud penderfyniadau ar draws amrywiaeth o wasanaethau. Roedd yr hyfforddiant staff yn canolbwyntio ar ddefnyddio AEDCh yn effeithiol i wella'r broses benderfynu ac mae wedi alinio templedi Adroddiadau'r Cabinet, Craffu a'r Cyngor i sicrhau bod y rhai sy'n gwneud penderfyniadau yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau. Mae'r Gymraeg yn parhau'n rhan o'r Tîm Polisi, Partneriaeth a Chynnwys y Cyngor, lleoliad sy'n parhau i feithrin cysylltiadau cadarnhaol rhwng creu polisi corfforaethol a hyrwyddo'r Gymraeg.

Safonau Gweithredol

Mae ein hadran AD yn parhau i weithio i sicrhau ein bod yn cydymffurfio â Safonau Gweithredol ar draws nifer o feysydd busnes. Drafftiodd is-grŵp o Grŵp Gweithredu'r Gymraeg Bolisi Sgiliau Iaith Gymraeg newydd a oedd yn cynnwys cyfres o argymhellion ynghylch sgiliau Cymraeg mewnol. Wedi ei gyflwyno i'r Tîm Rheoli Corfforaethol (TRhC) roedd y polisi yn cynnwys adolygiad ar ein prosesau recriwtio, ein polisi iaith Gymraeg mewnol, a'r ffordd rydym yn mesur ac yn monitro sgiliau Cymraeg ein staff. Gwnaed argymhellion i'r Grŵp, ac i'n Tîm Rheoli Corfforaethol yn gynnar yn 2021. Mae ein tîm Adnoddau Dynol wedi sefydlu'r seilwaith i gyflawni'r polisi newydd o fis Ebrill 2022.

Safonau Hyrwyddo

Mae ein Strategaeth Hyrwyddo 5 mlynedd newydd wedi'i basio gan y Cabinet a'r Cyngor Llawn, a chafodd dderbyniad cadarnhaol o ran cyfeiriad y strategaeth a'r ymgyrch i sicrhau bod y Gymraeg yn gynhwysol ac yn hygyrch i holl gymunedau amrywiol Casnewydd. Ei nod yw dwyn ynghyd y gwaith gyda rhanddeiliaid, gwasanaethau eraill y cyngor a'r Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-2032. Mae hefyd yn gyrru cynnwys y Gymraeg gyda'r Bwrdd Sgiliau Cywir ac aelodau ein Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (PSBs) i sicrhau cysondeb yn y ffordd y caiff y Gymraeg ei monitro fel sgil yn y gweithle. O fewn y Strategaeth rydym hefyd yn anelu at sicrhau bod pobl Casnewydd yn gallu, ***"gweld, clywed, dysgu, defnyddio a charu"*** 'r Gymraeg. Mae'r Cyngor yn parhau i feddu ar Aelod Etholedig sy'n Hyrwyddwr y Gymraeg (y Cyng. Jason Hughes) sy'n cefnogi hyrwyddo'r Gymraeg ar draws y ddinas a'r cyngor. Mae'r cyngor yn aelod o'r Fforwm Iaith, a gydlynir gan Fenter Iaith Casnewydd, ac a fynychir gan randdeiliaid Cymraeg allweddol.

Cadw Cofnodion

Mae gan y Cyngor system Rheoli Cysylltiadau Cwsmeriaid (RhCC), sydd wedi gwella'r ffordd rydym yn cofnodi cwynion sy'n ymwneud â'r Gymraeg a gwybodaeth am ddewis iaith cwsmeriaid. Mae'r cyngor yn defnyddio'r system AD, iTrent, i fonitro a chadw cofnodion ar sgiliau Cymraeg cyflogeion, presenoldeb mewn cyrsiau hyfforddi perthnasol ac asesiadau Cymraeg o swyddi gwag.

Monitro Perfformiad

Mae'r cyngor yn parhau i adolygu'r ffordd y mae'n monitro gweithredu Safonau ar draws y sefydliad. Mae Cynllun Gweithredu, Cynllun Corfforaethol a Chynlluniau Gwasanaethau Unigol ar gyfer Safonau penodol a berchnogir gan wasanaeth adnabyddadwy wedi cael eu datblygu. Caiff y gwaith o gyflawni'r cynlluniau hyn ei fonitro gan ein Grŵp Gweithredu'r Gymraeg a bydd dangosyddion perfformiad allweddol yn cael eu cynnwys yn ein system rheoli perfformiad gorfforaethol. Bydd hyn yn ei gwneud yn hawdd gweld data sefydliadol a data ar lefel gwasanaeth a'i fonitro. Mae mesurau perfformiad y Gymraeg eisoes wedi'u cynnwys yn fframwaith rheoli perfformiad a risg y cyngor yr adroddir arno bob chwarter ac yn ein hadroddiad blynyddol corfforaethol.

G. Edrych ymlaen at 2022/2023

Yn dilyn blwyddyn arall a oedd yn golygu bod angen canolbwyntio ar ddarparu gwasanaethau hanfodol i'n cymunedau, a staff sy'n parhau i weithio gartref gyda chyfleoedd cyfyngedig i ymgymryd â phrosiectau ymgysylltu â chymunedau Casnewydd, ein nod yw cyflawni nifer o flaenoriaethau a nodwyd y llynedd a chynnwys rhai newydd i adeiladu ar y sylfeini a osodwyd, gan gynnwys:

- Gweithio gyda'n cymunedau ffoaduriaid, mudwyr a chymunedau lleiafrifoedd ethnig i ymgorffori'r Gymraeg yn well fel rhan o ymdeimlad o hunaniaeth a rennir ar draws y ddinas, yn enwedig yng nghyd-destun datblygu ein pedwaredd ysgol Gymraeg
- Gweithredu ein Polisi Sgiliau'r Gymraeg newydd, y cytunwyd arno gan uwch reolwyr ac sy'n cynnwys mabwysiadu egwyddorion Cymraeg Clir, nodi swyddi fel rhai â'r Gymraeg yn ddymunol o leiaf a fframwaith sgiliau ALTE i gofnodi a monitro sgiliau Cymraeg yn y gweithle, a defnyddio'r data hwn yn well i lywio cynllunio strategol
- Adeiladu ar y trefniadau partneriaeth creadigol a ddatblygwyd y tu allan i'r sector cyhoeddus a gwirfoddol i godi proffil y Gymraeg yn well ledled Casnewydd gyda chyfleoedd yn rhanbarth rygbi'r Dreigiau a Chlwb Pêl-droed Casnewydd
- Gweithio gyda'n hybiau yn y gymdogaeth ym mhob rhan o'r ddinas i hyrwyddo ymgysylltu'n well â gwasanaethau'r cyngor trwy gyfrwng y Gymraeg
- Darparu dull cydlynol o ddatblygu sgiliau Cymraeg ar draws ein partneriaid BGC drwy'r Bwrdd Sgiliau Cywir

Rydym hefyd wedi nodi nifer o flaenoriaethau newydd, gan gynnwys:

- Gweithio gyda rhanddeiliaid a phartneriaid i gyflawni'r Strategaeth Gymraeg 5 mlynedd newydd a sefydlu fframwaith monitro perfformiad i asesu'r modd y cyflawnir amcanion
- Ymgysylltu â holl gymunedau amrywiol Casnewydd i hyrwyddo'r Gymraeg, codi ymwybyddiaeth ac amlygrwydd yr iaith a pharhau i ddatblygu addysg Gymraeg a chynwysoldeb yr iaith
- Sefydlu ein strwythur rheoli perfformiad newydd ar draws y cyngor
- Cyflwyno ein fideos hyfforddiant iaith Gymraeg sydd newydd eu datblygu i'r holl staff
- Bwrw golwg dros ac ystyried cyrsiau Cymraeg ar gyfer siaradwyr sydd wedi anghofio'u gallu, neu'r rhai sydd angen hwb i'w hyder

I gael rhagor o wybodaeth am ein gwaith o ran y Gymraeg, cysylltwch â nccequality@newport.gov.uk

Atodiad Un

Trosolwg o Brosiectau

1Miliwn Cyf

Adeiladu a lansio ffair Gymraeg ar ffurf arddangosfa gyda stondinau dros dro a rhestr o fusnesau/sefydliadau proffil uchel eraill, wedi'i anelu i ddechrau at ddisgyblion ysgol i hyrwyddo'r Gymraeg fel sgil.

Defnyddir grant ar gyfer:Mynediad cyffredinol pob myfyriwr, Cyfarpar/Nwyddau/Nwyddau Am Ddim/Gwobrau, Stondinau, staff 1Miliwn, criw camera/cynhyrchu 1Miliwn, gorsafoedd Covid/Hylendid, a threuliau cyffredinol.

Amgueddfa Lleng Rufeinig Cymru

Prosiect i greu adnodd dysgu Cymraeg newydd i'r amgueddfa a grëwyd ochr yn ochr â'r Ganolfan Gymraeg i sicrhau bod pob lefel o ddysgwyr yn cael eu cefnogi ac i gyflwyno digwyddiad i deuluoedd, gan gynnwys gweithgareddau i gefnogi plant mewn ysgolion Cymraeg ac i hyrwyddo'r iaith i blant di-Gymraeg.

Diben y grant: Ysgrifennu adnodd Dysgu Cymraeg i oedolion, cynllunio, argraffu, digwyddiad i deuluoedd, amser staff.

Cylch Meithrin Caerllion

Bwriad y prosiect yw cynnal diwrnod agored sy'n ceisio codi ymwybyddiaeth o'r Cylch Meithrin newydd, hyrwyddo darpariaethau meithrin cyfrwng Cymraeg, creu diwrnod llawn hwyl i deuluoedd, a chefnogi teuluoedd tuag at addysg cyfrwng Cymraeg.

Diben y grant: Llogi ystafelloedd a lluniaeth, llogi adloniant/personoliaethau/cymeriadau, staffio, talebau sesiwn, bagiau o nwyddau, costau gweithredol, hysbysebu, adnoddau Cymraeg.

Y Groes Goch Brydeinig

Cefnogi a chynyddu'r defnydd ymwybyddiaeth a gweledded y Gymraeg drwy dargedu ffoaduriaid/ceiswyr lloches a'r gymuned BAME ehangach yn benodol drwy gynnal diwrnod o ddigwyddiadau ffrind i'r teulu. Gyda digwyddiadau fel: Sesiynau blasu Cymraeg, perfformiadau Cymraeg, diddanwyr cymunedol, sgyrsiau a gweithdai gan aelodau uchel eu proffil o'r gymuned BAME sy'n siarad Cymraeg i arddangos y defnydd o'r iaith o safbwynt amlddiwylliannol.

Diben y grant: Technegydd sain a goleuo, tywyswyr, stiwdios, adnoddau i deuluoedd, amser swyddogion, artistiaid/siaradwyr, bwyd.

Eglwys Mynydd Seion

Nod y prosiect yw cynyddu cymhwysedd digidol y gymuned Gymraeg i greu eu podlediadau/rhaglenni radio eu hunain o ansawdd darlledu yn Gymraeg, drwy gymuned yr eglwys. Byddant yn dod o hyd i hyfforddiant a phrynu offer i greu deunydd a darllediadau digidol cyfrwng Cymraeg.

Diben y grant: Cyfarpar a meddalwedd (cymysgydd sain, mic, seinyddion, clustffonau, iMac, bwrdd/cadeiriau stiwdio), hyfforddiant, costau teithio.

Cymuned Ddiwylliannol Hwngaraidd yng Nghasnewydd
Amcan y prosiect yw dathlu a chadw'r ieithoedd Hwngareg a Chymraeg yng Nghasnewydd a meithrin cysylltiadau rhwng y cymunedau, addysgu am wreiddiau a thraddodiadau'r gymuned fel y gellir ei throsglwyddo i genedlaethau'r dyfodol a phontio cymunedau Hwngaraidd a Chymreig.
Diben y grant: Rhent, gemau bwrdd/teganau/postio, bwyd, cynhyrchion glanhau, costau teithio, cyfieithydd Cymraeg-Saesneg.

Sefydliad Dysgu Teuluol Cymunedol y Gaer
Cynnal gweithdai rhyngweithiol a chynhwysol i Deuluoedd a Chymuned y Gaer ddysgu am ddiwylliant Cymru wrth ddysgu Cymraeg achlysurol a sgyrsiol a chreu amgylchedd cymdeithasol i bobl ddatblygu sgiliau Cymraeg yn naturiol.
Bydd ganddynt hefyd brosiect 'Blas ar Gymru' ar gyfer teuluoedd lleol sy'n gysylltiedig ag Ysgol Gynradd y Gaer i ddysgu ac ymarfer hanfodion yr iaith mewn amgylchedd hamddenol. Mae cynnig y Gymraeg drwy weithgareddau yn caniatáu i ddiwylliannau amrywiol y Gaer gymryd rhan a dysgu am y diwylliant a'r iaith.

Diben y grant: Adnoddau, trafnidiaeth, cyfeilydd, recordiad stiwdio, llogi lleoliad, cynhwysion coginio, rhaglen ddogfen ddwyieithog, defnyddiau traul.

Gŵyl Newydd
Cronfeydd i gynnal cystadleuaeth gelfyddydol sy'n agored i holl ddinasyddion Casnewydd o dan frand Gŵyl Newydd a #EinCasnewydd i ddathlu'r Gymraeg. Eu nod yw gweithio gyda rhanddeiliaid eraill a'r Cyngor i godi ymwybyddiaeth o ddiwylliant Cymraeg cyfoes y ddinas, ysbrydoli pobl i ystyried eu hunaniaeth a'u perthynas â'r Gymraeg, datblygu creadigrwydd yng nghyd-destun yr iaith, a chynyddu gweledegd y Gymraeg yng Nghasnewydd.

Diben y grant: Ymgynghori â phartneriaid, dylunio tudalen we, penodi beirniaid, cysylltu â rhanddeiliaid, casglu ceisiadau i'r gystadleuaeth, trefnu taith enillwyr, arddangos gwaith enillwyr Gŵyl Newydd.

Menter Iaith Casnewydd
Creu a chynnal sesiynau ymwybyddiaeth o'r Gymraeg, drwy gynnal sesiynau ymwybyddiaeth gymunedol ar-lein ac wyneb yn wyneb gan dargedu ardal Pilgwenlli yng Nghasnewydd yn benodol. Bydd y prosiect yn gweld cyfres o sesiynau galw heibio byr yn ystod yr wythnos ac ar y penwythnos gan sicrhau bod croeso i bobl â phlant. Rydym yn darparu gweithgareddau i'r plant.

Nod y prosiect yw codi diddordeb mewn addysg Gymraeg yn y rhanbarth a hyrwyddo manteision defnyddio'r Gymraeg i rieni plant sydd mewn ysgolion Saesneg. Mae Menter Iaith Casnewydd hefyd yn bwriadu croesawu pobl o bob cefndir a phob rhan o gymdeithas sydd heb gael y cyfle i ddysgu Cymraeg oherwydd tueddiadau hanesyddol.
Diben y grant: Ymgynghori â phartneriaid, datblygu deunyddiau ymwybyddiaeth, darparu holiaduron gwybodaeth, gosod/hyrwyddo adnoddau ymwybyddiaeth ar y wefan, trefnu sesiynau ymwybyddiaeth wyneb yn wyneb, rhent, sesiynau, deunyddiau chwarae, dadansoddi data.

Casnewydd Fyw
Bydd pob gweithiwr Casnewydd Fyw yn cael cardiau fflach Cymraeg i ddysgu geiriau/ymadroddion defnyddiol i'w defnyddio yn yr amgylchedd gwaith ynghyd â fideos hyfforddi ar-lein.

Bydd y prosiect hefyd yn treialu 2 brosiect cerddorol. Y cyntaf yw noson gerddoriaeth Gymraeg yng Nglan yr Afon gydag artistiaid ac ysgolion lleol yn perfformio, gyda chymysgedd o gynulleidfa Gymraeg a di-Gymraeg. Yr ail fyddai côr cyfrwng Cymraeg ar Ddydd Santes Dwynwen, yn cynnwys 6 sesiwn ymarfer côr wythnosol, gan roi cyfle i bobl leol ddatblygu eu gwybodaeth am ddiwylliant Cymru.
Diben y grant: Cardiau fflach Cymraeg, prosiect côr, noson gerddoriaeth, gweithdai cyfnod gwyliau i bobl ifanc.

Cylch Meithrin Bryn-glas
Nod y prosiect yw gwella'r adnoddau Cymraeg sydd ar gael i'w defnyddio yn y Cylch Meithrin lleol hwn. Drwy wneud hyn, mae'r sefydliad yn gobeithio denu mwy o deuluoedd i fynychu Cylchoedd Meithrin. Mae Cylch Meithrin Brynglas yn gobeithio y bydd y grant yn rhoi cymhelliant i deuluoedd roi cynnig ar ddarpariaethau feithrin Gymraeg. Gwneir hyn drwy roi talebau i deuluoedd am 3 sesiwn fel rhan o fagiau nwyddau, sydd hefyd yn cynnwys adnoddau Cymraeg cyfarwydd i'w defnyddio gartref.
Diben y grant: Amryw o deganau/adnoddau/gemau Cymraeg, costau sesiynau, bagiau nwyddau.

Cylch Meithrin Y Delyn
Nod y prosiect yw gwella'r adnoddau Cymraeg sydd ar gael i'w defnyddio yn y Cylch Meithrin lleol hwn. Drwy wneud hyn, mae'r sefydliad yn gobeithio denu mwy o deuluoedd i fynychu Cylchoedd Meithrin. Mae Cylch Meithrin y Delyn yn gobeithio y bydd y grant yn rhoi cymhelliant i deuluoedd roi cynnig ar ddarpariaethau meithrin Cymraeg. Gwneir hyn drwy roi talebau i deuluoedd am 3 sesiwn fel rhan o fag nwyddau, sydd hefyd yn cynnwys adnoddau Cymraeg cyfarwydd i'w defnyddio gartref.
Diben y grant: Amryw o deganau/adnoddau/gemau Cymraeg, costau sesiynau, bagiau nwyddau**.**

Mudiad Meithrin

Gwella'r adnoddau Cymraeg sydd ar gael i'w defnyddio yn y Cylch Meithrin lleol hwn. Drwy wneud hyn, mae'r sefydliad yn gobeithio denu mwy o deuluoedd i fynychu Cylchoedd Meithrin. Mae Mudiad Meithrin yn gobeithio y bydd y grant yn rhoi cymhelliant i deuluoedd roi cynnig ar ddarpariaethau meithrin Cymraeg. Gwneir hyn drwy roi talebau i deuluoedd am 3 sesiwn fel rhan o fag nwyddau, sydd hefyd yn cynnwys adnoddau Cymraeg cyfarwydd i'w defnyddio gartref.

Diben y grant: Amryw o deganau/adnoddau/gemau Cymraeg, costau sesiynau, bagiau nwyddau.